ERW
Ein Rhanbarth ar Waith
Education through Regional Working
www.erw.cymru
www.erw.wales

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

**PRESENNOL:** Cynghorydd Alun Thomas [Cadeirydd]

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn | Cyngor Sir Ceredigion |
| Y Cynghorydd Gareth Jones | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Y Cynghorydd Keith Lewis | Cyngor Sir Penfro |
| Y Cynghorydd Des Thomas | Dinas a Sir Abertawe |
| Mr Mark James | Prif Weithredwr Arweiniol – ERW |
| Mr Aled Evans | Cyfarwyddwr Arweiniol – ERW |
| Ms Betsan O'Connor | Rheolwr Gyfarwyddwr – ERW |
| Ms Bronwen Morgan | Cyngor Sir Ceredigion |
| Mr Ian Westley | Cyngor Sir Penfro |
| Mr Jonathan Haswell | Cyngor Sir Penfro (Swyddog ERW S151) |
| Ms Jo Hendy | ERW |
| Mr Chris Llewellyn | CLILC |
| Mr Jeremy Saunders | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ms Chris Sivers | Dinas a Sir Abertawe |
| Ms Tanya Wigfall | Llywodraeth Cymru |
| Mr Richard Williams | ERW |
| Mr Martin Davies | Cyngor Sir Gaerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |
| Ms Catherine Gadd | Cyngor Sir Gaerfyrddin (Gwasanaethau Democrataidd) |

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Jamie Adams (Cyngor Sir Penfro), y Cynghorydd Emlyn Dole (Cyngor Sir Gaerfyrddin), y Cynghorydd Jennifer Raynor (Dinas a Sir Abertawe), y Cynghorydd Rob Stewart (Dinas a Sir Abertawe), Mr Jeremy Patterson (Cyngor Sir Powys) a Ms Elin Prysor (Cyngor Sir Ceredigion).

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL**

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb personol.

**3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR GOFNODION CYFARFOD O'R CYD-BWLLGOR A GYNHALIWYD AR 16 GORFFENNAF 2016**

Gwnaed cais i ddiwygio cofnod 9.3 – derbyn Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015–16 – i gymeradwyo Datganiad Llywodraethiant Blynyddol 2015–18.

**CYTUNWYD i lofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2016 fel cofnod cywir, gyda'r diwygiad a nodir uchod.**

**4. COFRESTR RISG**

Dosbarthwyd i aelodau'r Cyd-bwyllgor gopi o'r Gofrestr Risg oedd yn amlygu'r prif risgiau yn y meysydd Corfforaethol, Ariannol a Gwella Ysgolion ac er mwyn galluogi ERW i liniaru'r risgiau posibl lle bo modd.

Amlinellodd y Rheolwr Gyfarwyddwr y prif newidiadau a'r diweddariadau i'r Gofrestr, a oedd yn cynnwys lleihau risgiau ysgolion sy'n achosi pryder. Roedd y risg hon wedi derbyn sylw ac roedd fformiwla ar gael o'r hyn oedd yn gweithio'n dda yn y rhan fwyaf o ysgolion. Nodwyd nad oedd mor effeithiol mewn rhai ysgolion llai.

Gofynnwyd pam yr oedd eitem 1 – Methiant i gydymffurfio neu weithredu ar argymhelliad Archwiliad Mewnol – yn parhau ar y Gofrestr Risg ac a oedd yn parhau'n risg. Eglurodd y Rheolwr Gyfarwyddwr fod hyn yn cael ei fesur bob chwarter a bod system awtomatig dda mewn lle; er hynny, ar brydiau ni lwyddwyd i gadw at derfynau amser. Cytunwyd mai risg gyffredinol ydoedd ac nad oedd angen ei chadw ar y Gofrestr bellach.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn, gyda'r diwygiad a nodwyd uchod.**

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

## 5. DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR ARWEINIOL A'R RHEOLWR GYFARWYDDWR

Rhoddwyd diweddariad geiriol ynghylch y gweithgareddau i aelodau'r Pwyllgor; eglurwyd bod cyfarfod o'r Bwrdd Gweithredol wedi'i gynnal ar 21 Hydref 2016 ac oherwydd yr amserlen na ellid ei gyflwyno fel adroddiad ysgrifenedig.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y cyfarfod gydag ysgolion a hybiau yn y consortiwm wedi bod yn llwyddiannus iawn. Roedd tair neges glir wedi'u rhoi:

- Roedd yn rhaid sicrhau bod Cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cyrraedd yr ystafell ddosbarth.
- Mae ERW yn gwrando ac yn crynhoi barn y proffesiwn ac mae angen i ysgolion ddeall bod ERW yna i helpu.
- Mae cymorth gan ysgolion i ysgolion eraill wedi bod yn llwyddiant ac roedd yn rhaid i hyn ddod yn ddisgyblaeth. Nodwyd bod lle i wella o hyd.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Arweiniol sylw at y ffaith fod yr adolygiad swyddogol cyntaf gan gyfoedion yn cael ei gynnal yn sir Benfro. Byddai'r adolygiad yn arwain at adroddiad cynnydd cyfrinachol i Gyngor Sir Penfro. Hysbysodd Prif Weithredwr Cyngor Sir Penfro y Pwyllgor y byddai Sir Benfro yn barod i rannu rhai agweddau ar yr adroddiad â'r Awdurdodau Lleol eraill. Nodwyd y byddai gan feysydd eraill hefyd ddiddordeb mewn cynnal ymarferiad tebyg, gan ei fod yn rhan o system o hunan-wella a oedd yn berthnasol i ysgolion ac Awdurdodau Lleol fel ei gilydd. Yn ychwanegol at hynny, byddai cynhadledd wella yn cael ei chynnal yn sir Benfro ym mis Ionawr; roedd hwn yn gysyniad newydd a ddatblygwyd gan Estyn.

Cafwyd diweddariad gan y Rheolwr Gyfarwyddwr ar y datblygiadau ynghylch Dyfodol Llwyddiannus, y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Cymru wedi ystyried y pryderon a godwyd ynglŷn â'i weithredu ac yn gweithio gyda phartneriaid i ailstrwythuro'r rhaglen. Codwyd pryderon am y modd y byddai addysg cyfrwng Cymraeg yn rhan o'r strwythur. Tynnodd y Cyfarwyddwr Arweiniol sylw at y ffaith ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am gyfarfod cyn gynted â phosib i drafod eu bwriad i ddatblygu strategaeth ar gyfer Cymru gyfan i roi sylw i'r mater hwn.

Nodwyd bod rhai datblygiadau diddorol wedi digwydd ym Mand B rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ac awgrymwyd bod yr Arweinwyr Addysg yn cadw hyn mewn cof.

**Cytunwyd bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

## 6. LLYTHYR GAN Y GRŴP CRAFFU

Hysbyswyd y Cyd-bwyllgor fod Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion pob un o'r chwe Awdurdod Lleol wedi cynnal cyfarfod hanner blynyddol Grŵp y Cynghorwyr Craffu yn sir Benfro, ar 27 Medi 2016, ac wedi derbyn casgliadau ac argymhellion y cyfarfod.

Ymysg y pynciau a drafodwyd yn ystod y cyfarfod yr oedd Arolygiad Estyn o ERW a Chynllun Busnes ERW. Rhoddodd y Grŵp ystyriaeth hefyd i Addysg Ddewisol yn y Cartref a thrawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Sylweddolwyd bod y meysydd hyn y tu allan i gwmpas ERW, ond er hynny ei bod yn fuddiol i'r Grŵp gydweithio i rannu profiadau ac arferion da ar draws y rhanbarth.

Roedd y Grŵp wedi diolch i'r Cyd-bwyllgor am eu hymateb i ohebiaeth flaenorol ac wedi gofyn am y canlynol:

- Eglurdeb pellach ynghylch capasiti Ymgynghorwyr Her ar draws y rhanbarth.
- Gwybodaeth bellach am y modd y darperir canlyniadau categoreiddio i rieni.

Tynnodd y Rheolwr Gyfarwyddwr sylw at y ffaith fod y cyfarfodydd yn dod yn fwyfwy defnyddiol. Cydnabu'r Cyd-bwyllgor y cyfraniad a wnâi tuag at y daith i welliant a diolchodd i'r Grŵp am y pwyntiau gwerthfawr a godwyd.

**Cytunwyd**
**6.1 y dylid derbyn yr adroddiad;**
**6.2 y dylid llunio ymateb i'r pwyntiau a godwyd gan y Grŵp.**

## 7. CYTUNDEB CYFREITHIOL

Dosbarthwyd i aelodau'r Cyd-bwyllgor yr amrywiad arfaethedig a'r newidiadau a argymhellir i'r Cytundeb Cyfreithiol, a oedd mewn grym er 2014.

Amlinellwyd hanes creu ERW fel Cyd-bwyllgor yn hytrach na chwmni, gydag ymrwymiad yr Awdurdodau Lleol i gyfrannu cymorth. Cydnabuwyd na sylweddolwyd yn llawn ar y dechrau faint o gymorth oedd ei angen ac y dylid categoreiddio ymhellach a thynhau rhywfaint ar y cymorth hwnnw erbyn hyn. Roedd angen Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer rhai Gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y darparwyr ac ERW yn glir beth oedd y paramedrau a'r disgwyliadau.

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

Nodwyd hefyd fod swm sylweddol o gymorth yn gymorth ymarferol ac y dylid prisio'r cymorth hwn hefyd er mwyn sicrhau darlun manwl gywir a thryloyw ar gyfer yr holl Awdurdodau Lleol. Gwnaed cais am waith pellach ar yr adroddiad i gynnwys yr wybodaeth hon a mân ddiwygiadau eraill.

**CYTUNWYD y dylid diwygio'r adroddiad i gynnwys manylion pellach fel a amlinellwyd uchod a'i ailgyflwyno i gyfarfod yn y dyfodol.**

**8. CYNLLUN DIRPRWYO**

Dosbarthwyd i'r Cyd-bwyllgor atodiad i drefniadau dirprwyo a rheolaeth ariannol y cytundeb.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Arweiniol ei bod yn bwysig fod ERW yn hyblyg gyda grantiau er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i'w potensial llawn.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i gymeradwyo.**

**9. Y GWASANAETHU CYFIEITHU**

Dosbarthwyd yr adroddiad ar y gwasanaeth cyfieithu ar gyfer ERW i'r Cyd-bwyllgor fel y gallent wneud penderfyniad ynghylch y gwasanaeth cyfieithu yn y dyfodol.

Eglurwyd bod y gwasanaethau cyfieithu ar gyfer ERW wedi bod yn fater trafod sylweddol ers peth amser. Yn dilyn cytundeb gan y Cyd-bwyllgor, gwahoddwyd pob un o'r chwe Awdurdod Lleol o fewn ERW i fynegi diddordeb mewn darparu gwasanaethau cyfieithu. Roedd tri Awdurdod Lleol wedi cyflwyno datganiad o ddiddordeb, â'r tri ohonynt â chostau tipyn uwch na rhai'r darparwr presennol. Ym mis Gorffennaf ailgyflwynwyd y cais am fynegi diddordeb er mwyn gweld a ellid sicrhau effeithlonrwydd pellach. Diweddarodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW yr wybodaeth i'r Pwyllgor gan nodi mai un Awdurdod Lleol yn unig oedd wedi cyflwyno datganiad pellach o ddiddordeb, a bod hwnnw yn dal yn ddrutach na'r trefniadau presennol. Ar sail hyn, y dewis mwyaf effeithiol ac effeithlon fyddai parhau i ddefnyddio'r darparwr allanol presennol.

**CYTUNWYD**

**9.1 y dylid derbyn yr adroddiad;**

**9.2 bod y gwasanaeth cyfieithu ar gyfer ERW yn parhau i gael ei ddarparu gan y darparwr presennol.**

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

**10. CYNLLUN GWELLA / ADRODDIAD ESTYN**

Dosbarthwyd i aelodau'r Cyd-bwyllgor Gynllun Gwella ôl-arolygiad ESTYN i bontio rhwng y sefyllfa bresennol a'r cylch cynllunio busnes newydd a fydd yn dechrau ym mis Ebrill 2017. Mae'r cynllun yn cynnwys pedwar prif argymhelliad Estyn i ERW.

Amlinellodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW y ffaith fod gwaith sylweddol yn digwydd i wella cynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn nesaf a bod y cynllun tymor byr yn sicrhau bod cynnydd cyflym yn cael ei wneud yn y cyfamser. Tynnwyd sylw at y cynnydd a wnaed ym mhob un o brif argymhellion Estyn ac y byddai adborth pellach ar yr argymhellion yn y cyfarfod nesaf.

Nodwyd bod gwybodaeth fanwl ar gyfer deiliaid portffolio'r chwe Awdurdod Lleol yng nghyfarfodydd yr Hwb, oedd yn adlewyrchu'r neges a gafwyd drwy'r arolygiad fod angen mwy o ymwneud ar eu rhan. Teimlwyd ei bod yn fuddiol i ddeiliaid portffolio o'r gwahanol ardaloedd gydweithio a chael blas o'r hyn oedd yn digwydd ar draws y 6 Awdurdod Lleol.

**CYTUNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**11. TROSOLWG O GYFNOD CYFNOD ALLWEDDOL 4**

Dosbarthwyd i aelodau'r Cyd-bwyllgor drosolwg o Gyfnod Allweddol 4, oedd yn cynnwys data cyd-destunol a pherfformiad.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Arweiniol i'r Pwyllgor brif agweddau'r data a'r deilliannau positif ar draws y rhanbarth. Nodwyd bod cynnydd yn parhau yn Nangosyddion y Pynciau Craidd ac y cafwyd gwelliant bychan yn siart 19 – trothwy Lefel 2, yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg (L2+) – o 63.8% i 63.9%. Tynnwyd sylw at y ffaith fod ERW yn gwneud yn well na chonsortia eraill o ran perfformiad disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, gyda 37% yn cyrraedd L2+. Roedd y data'n adlewyrchu'r gwaith a wnaed yn y maes a defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd i ddisgyblion. Gellid gwella'r canlyniadau ymhellach drwy rannu arferion da a gwneud defnydd o wybodaeth a dealltwriaeth mewn ffordd fwy deinamig. Tynnwyd sylw at y ffaith fod y perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 5 yn gyson; er hynny, rhaid i ERW anelu at wella ymhellach.

Nodwyd bod merched yn perfformio'n well na bechgyn yn gyffredinol a holwyd sut yr oedd ERW yn delio â'r mater hwn. Eglurodd y Cyfarwyddwr Arweiniol fod sylw wedi'i roi i'r pryderon hyn ar lefel leol a bod angen gwaith gyda bechgyn i geisio gwella'r sefyllfa, yn enwedig mewn iaith ac ysgrifennu estynedig. Tynnwyd sylw at y

ffaith fod maes llafur TGAU Saesneg yn newid ac y byddai cyfran uwch o'r radd yn cael ei hasesu drwy arholiadau yn hytrach nag asesiad rheoledig. Roedd bechgyn yn tueddu i berfformio'n well mewn asesiadau nag arholiadau a gallai'r newid gael effaith bellach ar eu perfformiad. Bydd mwy o bwyslais hefyd ar sillafu, atalnodi a gramadeg, a byddai'r newidiadau'n rhai heriol i'r ysgolion. Bydd angen monitro'r perfformiad yn ofalus yn ystod y cyfnod hwn.

Holwyd a oedd ERW yn casglu data ynghylch pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) gan nad oedd y data hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Rheolwr Gyfarwyddwr eu bod yn gwneud hyn ac y byddai'n cyflwyno'r wybodaeth hon i gyfarfod yn y dyfodol.

**CYTUNWYD y dylid derbyn yr adroddiad.**

## 12. RHAGLEN WAITH ARCHWILIO MEWNOL

Dosbarthwyd Rhaglen Waith Archwilio Mewnol 2016–17, a baratowyd yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus, i'r Cyd-bwyllgor.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Arweiniol sylw at y ffaith fod y rhaglen waith wedi'i thrafod gan y Grŵp Gweithredol a bod y grŵp yn teimlo fod y meysydd a argymhellwyd yn rhai addas i'r harchwilio. Er hynny, gofynnwyd am symud dwy eitem i raglen waith yn y dyfodol. Yn gyntaf, paratoi a chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan ei bod yn dal yn ddyddiau cynnar a bod yr angen yn parhau i gael ei dadansoddi. Roedd angen amser i ddatblygu cyn ystyried safbwynt ERW ynghylch hyn. Yn ail, Cydymffurfio ag Archebion Sefydlog.

**CYTUNWYD**
**12.1 y dylid derbyn rhaglen waith Archwilio Mewnol 2016–17;**
**12.2 y dylid cymeradwyo rhaglen waith Archwilio Mewnol 2016–17 gyda'r diwygiad y dylai Paratoi a Chydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chydymffurfio ag Archeb Sefydlog gael eu symud i raglen waith yn y dyfodol.**

## 13. DIWEDDARIAD ARIANNOL AIL CHWARTER – 2016–17

Dosbarthwyd Diweddariad Ariannol Ail Chwarter 2016–17 i'r Cyd-bwyllgor.

Tynnodd Rheolwr Gyfarwyddwr ERW sylw at un newid oedd wedi digwydd, sef cynnydd o £5K yng nghost trwydded y wefan. Byddid hefyd yn ceisio cael gwybodaeth bellach ynghylch y newid i grantiau.

**Pwyllgor ar y Cyd/Joint Committee**
**2 Tachwedd/November 2016**
**Neuadd y Sir, Caerfyrddin / County Hall, Carmarthen**
**2 p.m. – 3.40 p.m.**

**CYTUNWYD y dylid derbyn yr adroddiad.**

**14. GWERTH AM ARIAN**

Dosbarthwyd y rhaglen waith oedd wedi'i threfnu ar gyfer adolygiadau gwerth am arian 2016–17 i'r Cyd-bwyllgor. Darparwyd crynodeb byr ar gyfer y meysydd y bwriedid eu hadolygu a'r cyfleoedd i wneud y defnydd gorau o grantiau.

Eglurwyd bod Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn rhanbarth ddatblygu economaidd a'i bod yn ystyried datblygu isadeiledd tebyg i un ERW.

**CYTUNWYD y dylid derbyn a chymeradwyo'r adroddiad.**

**Llofnodwyd: ____________________________ Dyddiad: ______________**

**CADEIRYDD**